Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned a Gwelliannau i Ganol y Dref - Shotton

Cefndir y cynllun

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â phryderon diogelwch ar y ffyrdd a thagfeydd yn yr ardaloedd ger Ysgol Tŷ Ffynnon ac Ysgol Croes Atti, er budd preswylwyr lleol a phlant sy'n mynychu'r ddwy ysgol.

Pam fod angen gwelliannau diogelwch yma?

Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi clywed am nifer o bryderon ynglŷn â chyflymder traffig a pharcio peryglus yng nghyffiniau'r ddwy ysgol. Mae cerdded a beicio yn ffordd wych o gynyddu eich gweithgarwch corfforol ac rydym ni eisiau darparu amgylchedd mwy diogel a mwy deniadol er mwyn i bobl allu gwneud hyn.

Gwelliannau a Mesurau Diogelwch Arfaethedig

- Terfyn cyflymder 20mya gorfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â materion goryrru tra'n sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol er mwyn hyrwyddo dulliau llesol o deithio.

- Twmpathau gostegu traffig sy'n addas i feicwyr a 'thwmpathau pen gwastad' er mwyn arafu traffig, gan sicrhau bod y terfyn cyflymder 20mya gorfodol yn 'hunan-orfodaeth', a gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel.

- Cynlluniau Parcio i Breswylwyr er mwyn darparu mannau parcio sydd fawr eu hangen i breswylwyr lleol sy'n byw ger yr ysgolion.

- Lledu'r llwybr troed presennol i gyfleuster 3 metr a rennir i Ysgol Tŷ Ffynnon, i'w gwneud hi'n haws i gerdded a beicio mewn i'r ysgol.

- Gwelliannau i'r llwybr troed/llwybr ceffylau presennol rhwng Taliesin Avenue a'r Ganolfan Byd Gwaith, pwll nofio a llyfrgell. Fe fydd cynigion hefyd yn cynnwys gwella'r goleuadau a chlirio'r llystyfiant ar hyd y llwybr.

- Gwelliannu i'r llwybr troed/llwybr beicio presennol sydd yn croesi'r rheilffordd rhwng King George Street a Shotton Lane. Fe fydd cynigion hefyd yn cynnwys gwella'r goleuadau a chlirio'r llystyfiant ar hyd y llwybr.

- Cyfyngiadau parcio er mwyn datrys problem parcio peryglus ar gyffyrdd.

- Camera sefydlog er mwyn gorfodi'r marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir'. Fe fydd y camera yn gorfodi'r rheoliadau parcio yn barhaol ac yn gwella diogelwch ar y ffordd y tu allan i'r ysgol.

Sut y bydd hyn yn effeithio arnaf i fel preswylydd?

Mae eich barn yn bwysig ac fe fydd yn ein helpu i ddarparu cynllun wedi'i addasu. Rydym ni eisiau gwella'r gymuned trwy ddarparu llwybrau mwy diogel.

Sut allaf i wneud sylwadau?

Rydym ni eisiau clywed eich barn am ein cynigion, ond nid yw hi'n bosibl cynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Yn hytrach, rydym eisiau i chi roi eich sylwadau ar-lein trwy fynd i'n gwefan www.siryfflint.gov.uk a chwilio am 'EForms'.

Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, yna gallwch ffonio i gofrestru eich barn ar:

01352 701234